I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC22-06

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2022* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 81, 82 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2022.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "a gymeradwywyd" a "cymeradwy" ("*approved*") yw a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw blwyddyn sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

ystyr "bwydydd heb glwten" ("*gluten free foods*") yw dim ond y bwydydd heb glwten hynny a bennir yn rhestr A o Ran XV (sylweddau ffiniol) o'r Tariff Cyffuriau;

(**1**) 2006 p. 42.

ystyr “camddefnyddiwr cyffuriau” (“*drug misuser*”) yw person sy’n camddefnyddio cyffuriau drwy hunanchwistrellu;

ystyr “Cofnod Dewis Fferyllfa” (“*Choose Pharmacy Record*”) yw cofnod y claf a gedwir gan fferyllydd GIG sydd, yn unol â threfniant a wneir gyda Bwrdd Iechyd Lleol, yn darparu gwasanaeth a bennir yn y Cyfarwyddydau hyn;

ystyr “cofnod gofal claf” (“*patient care record*”) yw cofnodion y claf a gedwir gan y person sy’n darparu gwasanaethau hanfodol contractau GMC, neu eu cyfwerth, i’r claf;

mae i “corff GIG” yr ystyr a roddir i “NHS body” gan reoliad 213 o’r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol;

ystyr “cyfnod y tu allan i oriau” (“*out of hours period*”) yw, mewn perthynas â fferyllfa, y dyddiau a’r amseroedd nad oes rhaid i’r fferyllfa aros ar agor o dan baragraff 23 (oriau agor fferyllfa: cyffredinol) o Atodlen 5 i’r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;

ystyr “cynllun rheoli clinigol” (“*clinical management plan*”) yw cynllun ysgrifenedig sy’n ymwneud â thrin claf unigol y cytunir arno gan—

(a) y claf,

(b) y meddyg neu’r deintydd sy’n barti i’r cynllun, ac

(c) unrhyw ragnodydd atodol sydd i ragnodi, i roi cyfarwyddydau ar gyfer gweinyddu neu i weinyddu o dan y cynllun;

ystyr “Dewis Fferyllfa” (“*Choose Pharmacy*”) yw’r system electronig a ddefnyddir gan fferyllwyr GIG i greu Cofnod Dewis Fferyllfa;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “FfHAEG” (“*NECAF*”) yw’r Ffurflen Hawlio ac Archwilio Electronig Genedlaethol, y system electronig a ddefnyddir gan fferyllwyr GIG i gyflwyno hawliadau am dâl am ddarparu gwasanaethau GIG;

ystyr “gwasanaethau hanfodol contractau GMC” (“*GMS contract essential services*”) yw’r gwasanaethau y mae’n ofynnol i gontractwyr GMC eu darparu yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**1**);

mae i “gwasanaethau hanfodol fferyllol” (“*pharmaceutical essential services*”) yr ystyr a

(**1**) O.S. 2004/478 (Cy. 48).

roddir i "gwasanaethau hanfodol" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;

ystyr "hysbysu" ("*notify*") yw hysbysu'n ysgrifenedig ac mae'n cynnwys cyfathrebiadau electronig;

ystyr "PCGC" ("*NWSSP*") yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a sefydlwyd gan Reoliadau Pwyllgor Cydwasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Cymru) 2012(**1**), sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre mewn perthynas â chydwasanaethau, polisi a strategaeth, a rheoli a darparu cydwasanaethau i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru;

ystyr "rhagnodydd annibynnol" ("*independent prescriber*") yw—

(a) meddyg neu ddeintydd sy'n barti i gynllun rheoli clinigol gyda rhagnodydd atodol,

(b) meddyg fferyllol,

(c) nyrs sy'n rhagnodi'n annibynnol,

(d) nyrs-ragnodydd annibynnol,

(e) optometrydd-ragnodydd annibynnol,

(f) parafeddyg-ragnodydd annibynnol,

(g) fferyllydd-ragnodydd annibynnol,

(h) ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol,

(i) podiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol, neu

(j) radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol;

ystyr "Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol" ("*Pharmaceutical Services Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**2**);

ystyr "Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol" yw Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(**3**);

ystyr "technegydd fferyllfa" ("*pharmacy technician*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 2 o Gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol;

ystyr "tystysgrif cofnod troseddol manwl" ("*enhanced criminal record certificate*") yw tystysgrif cofnod troseddol manwl a ddyroddir o dan adran 113B(1) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**4**) sy'n cynnwys, mewn unrhyw achosion a ragnodir o bryd i'w gilydd o dan adran 113BA(1)4 o'r Ddeddf honno, wybodaeth addasrwydd sy'n

(**1**) O.S. 2012/1261 (Cy. 156).
(**2**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).
(**3**) O.S. 2012/1916.
(**4**) 1997 p. 50.

ymwneud â phlant neu sy’n ymwneud ag oedolion hyglwyf, ac unrhyw wybodaeth ddiweddaru berthnasol pan fo tystysgrif o’r fath yn ddarostyngedig i drefniadau diweddaru.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Cyfarwyddydau hyn ac yn y Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol yr un ystyr ag yn y Rheoliadau hynny.

**Materion cyffredinol a rhagamodau ar gyfer gwneud trefniadau**

**3.**—(1) Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud trefniadau gyda fferyllydd GIG ar gyfer darparu unrhyw un neu ragor o’r gwasanaethau clinigol a bennir yng nghyfarwyddydau 4 i 8, rhaid i’r fferyllydd GIG fodloni’r amodau a nodir ym mharagraffau (2) i (7).

(2) Yr amod cyntaf yw bod y fferyllydd GIG wedi hysbysu’r Bwrdd Iechyd Lleol am ei fwriad i ddarparu’r gwasanaeth clinigol perthnasol, yn y modd a gymeradwywyd(**1**) at y diben hwnnw, ac wedi rhoi tystysgrif cofnod troseddol manwl foddhaol i’r Bwrdd Iechyd Lleol.

(3) Yr ail amod yw bod y fferyllydd GIG yn cydymffurfio’n foddhaol â’i rwymedigaethau o dan Atodlen 5 i’r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau fferyllol.

(4) Y trydydd amod yw—

(a) os yw’r fferyllydd GIG yn fferyllydd cofrestredig, fod rhaid iddo gwblhau’r holl hyfforddiant cymeradwy sy’n ofynnol er mwyn darparu’r gwasanaethau sy’n rhan o’r gwasanaeth clinigol perthnasol;

(b) os yw’r fferyllydd GIG yn fferyllydd cofrestredig a’i fod yn bwriadu cyflogi neu gymryd ymlaen fferyllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllol i ddarparu gwasanaethau sy’n rhan o wasanaeth clinigol, fod rhaid i’r fferyllydd cofrestredig hwnnw neu’r technegydd fferyllol hwnnw gwblhau’r holl hyfforddiant cymeradwy sy’n ofynnol er mwyn darparu’r gwasanaethau sy’n rhan o’r gwasanaeth clinigol perthnasol; neu

(c) os yw’r fferyllydd GIG yn gorff corfforedig neu’n bartneriaeth, fod rhaid i unrhyw fferyllydd cofrestredig neu unrhyw dechnegydd fferyllol y mae’n bwriadu ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen i ddarparu unrhyw wasanaethau sy’n rhan o wasanaeth

(**1**) Gellir cael y ffurflenni cymeradwy ar gyfer y gwasanaethau clinigol ar: http://www.wales.nhs.uk/eingwasanaethau/cyfeiriadur

clinigol gwblhau'r holl hyfforddiant cymeradwy sy'n ofynnol er mwyn darparu gwasanaethau fel rhan o'r gwasanaeth clinigol perthnasol.

(5) Y pedwerydd amod yw—

(a) os yw'r fferyllydd GIG yn fferyllydd cofrestredig, fod rhaid iddo gwblhau [yn y modd cymeradwy y ffurflen gymeradwy] sy'n gwarantu ei fod yn gymwys i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ffurfio'r gwasanaeth clinigol perthnasol;

(b) os yw'r fferyllydd GIG yn fferyllydd cofrestredig a'i fod yn bwriadu cyflogi neu gymryd ymlaen fferyllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllol i gyflawni gwasanaethau sy'n rhan o wasanaeth clinigol, fod rhaid i'r fferyllydd cofrestredig hwnnw neu'r technegydd fferyllol hwnnw gwblhau yn y modd cymeradwy y ffurflen gymeradwy sy'n gwarantu ei fod yn gymwys i ddarparu'r gwasanaethau hynny; neu

(c) os yw'r fferyllydd GIG yn gorff corfforedig neu'n bartneriaeth, fod rhaid i unrhyw fferyllydd cofrestredig neu unrhyw dechnegydd fferyllol y mae'n bwriadu ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen i ddarparu unrhyw wasanaethau sy'n rhan o wasanaeth clinigol gwblhau yn y modd cymeradwy y ffurflen gymeradwy sy'n gwarantu ei fod yn gymwys i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

(6) Y pumed amod yw bod gan y fferyllydd GIG mewn lle yn y fferyllfa y mae gwasanaethau sy'n rhan o'r gwasanaeth clinigol perthnasol i'w darparu ynddi, neu ohoni, weithdrefn weithredu safonol ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth—

(a) y mae holl staff y fferyllfa wedi eu hysbysu amdani,

(b) sy'n esbonio'r gwasanaeth clinigol, ei feini prawf cymhwystra a'r rolau y gall fod yn ofynnol i staff y fferyllfa eu cyflawni fel rhan o gyflenwi'r gwasanaeth, ac

(c) y mae staff y fferyllfa wedi cael hyfforddiant priodol yn ei chylch, os oes unrhyw rôl y gall fod yn ofynnol iddynt ei chyflawni fel rhan o'r gwasanaeth.

(7) Y chweched amod, yn ddarostyngedig i baragraff (8), yw bod y gwasanaethau clinigol a ddarperir o dan unrhyw drefniant yn cael eu darparu mewn lleoliad derbyniol, ac yn y cyfarwyddyd hwn, ystyr "lleoliad derbyniol" yw man ar gyfer ymgyngoriadau cyfrinachol ym mangre fferyllfa'r fferyllydd GIG—

(a) sydd wedi ei ddynodi'n glir fel man ar gyfer ymgyngoriadau cyfrinachol,

(b) sydd ar wahân i fannau cyhoeddus cyffredinol mangre’r fferyllfa, ac

(c) sy’n fan lle y mae’r person sy’n cael gwasanaethau a’r fferyllydd cofrestredig neu’r technegydd fferyllol sy’n darparu’r gwasanaethau hynny yn gallu eistedd gyda’i gilydd a siarad mor uchel ag sy’n arferol heb gael eu cipglywed gan unrhyw berson arall (gan gynnwys staff eraill y fferyllfa).

(8) Caiff fferyllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllol sef y fferyllydd GIG, neu sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y fferyllydd GIG, ddarparu gwasanaethau ac eithrio yn y lleoliad derbyniol ym mangre fferyllfa’r fferyllydd GIG os yw’r fferyllydd cofrestredig hwnnw neu’r technegydd fferyllol hwnnw yn gwneud hynny—

(a) dros y ffôn, neu drwy alwad fideo neu’n bersonol mewn lleoliad ac eithrio mangre’r fferyllfa er mwyn darparu gwasanaethau i glaf penodol ar achlysur penodol,

(b) gyda chytundeb y claf hwnnw, a’r claf hwnnw wedi mynegi dymuniad i’r cyswllt hwnnw fod dros y ffôn, neu drwy alwad fideo neu mewn lleoliad ac eithrio mangre’r fferyllfa ar yr achlysur hwnnw, ac

(c) o dan amgylchiadau—

(i) pan fo’r fferyllydd cofrestredig neu’r technegydd fferyllol yn fferyllfa’r fferyllydd GIG, a

(ii) pan na fo modd cipglywed y sgwrs (ac eithrio gan rywun y mae’r claf am iddo glywed y sgwrs, er enghraifft, gofalwr); neu

(iii) pan fo’r gwasanaethau yn cael eu darparu mewn lleoliad ac eithrio mangre’r fferyllfa GIG, gyda chydsyniad y Bwrdd Iechyd Lleol.

**Y Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau wrth Ryddhau**

**4.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau (“AMR”), ar gyfer personau o fewn ei ardal a’r tu allan iddi, gyda fferyllwyr GIG sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol—

(a) sy’n dymuno ymrwymo i drefniadau o’r fath ac yn hysbysu’r Bwrdd Iechyd Lleol am eu bwriad i ddarparu’r gwasanaeth AMR yn unol â chyfarwyddyd 3(2), a

(b) sy’n bodloni’r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3, paragraffau (3) i (7) yn gynhwysol, ac

(c) sy’n cytuno i ddarparu’r gwasanaeth AMR yn unol â’r fanyleb berthnasol(**1**).

(2) Diben sylfaenol y gwasanaeth AMR, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau’r risg o wallau mewn meddyginiaethau a digwyddiadau cyffuriau andwyol drwy, yn benodol—

(a) cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,

(b) gwella cyfathrebu rhwng proffesiynolion gofal iechyd ac eraill sy’n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a’u gofalwyr,

(c) cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o’u meddyginiaethau, a

(d) lleihau’r tebygolrwydd y bydd presgripsiynau dyblyg diangen yn cael eu gweinyddu, a lleihau gwastraff meddyginiaethau.

**5.**—(1) Cyn ymrwymo i drefniadau gyda fferyllydd GIG ar gyfer darparu’r gwasanaeth AMR o dan gyfarwyddyd 4, rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ei fodloni ei hun bod y trefniadau hynny yn darparu—

(a) mai dim ond fferyllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllol, sydd wedi cwblhau yn y modd cymeradwy y ffurflen gymeradwy sy’n gwarantu ei fod yn gymwys i ddarparu gwasanaethau Rhan 1 a Rhan 2 fel rhan o’r gwasanaeth AMR, sydd i ddarparu’r gwasanaethau hynny;

(b) bod gwasanaethau Rhan 1 a Rhan 2 a ddarperir fel rhan o’r gwasanaeth AMR i’w darparu mewn lleoliad derbyniol ym mangre fferyllfa’r fferyllydd GIG, o fewn yr ystyr a roddir gan gyfarwyddyd 3(7) ac eithrio o dan yr amgylchiadau y darperir ar eu cyfer gan gyfarwyddyd 3(8);

(c) na chaiff y fferyllydd GIG ond cynnig darparu’r gwasanaeth AMR—

(i) i bersonau sydd wedi cael eu rhyddhau o un lleoliad gofal i un arall o fewn y 4 wythnos flaenorol,

(ii) y mae’r fferyllfa wedi cael copi o nodyn cyngor ar ei gyfer ynghylch meddyginiaethau’r claf a ddyroddir gan y lleoliad gofal y mae’r claf wedi cael ei ryddhau ohono, ac—

(**1**) https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/

(aa) bod newid wedi digwydd ym meddyginiaethau'r claf cyn i'r claf gael ei ryddhau,

(bb) bod y claf yn cymryd 4 neu ragor o feddyginiaethau,

(cc) bod y claf yn ei gwneud yn ofynnol i addasiad rhesymol gael ei wneud i gyflwyniad ei feddyginiaethau, neu

(dd) bod gan y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol, yn ei farn broffesiynol, reswm dros ystyried y byddai'r claf yn cael budd o'r gwasanaeth, a

(iii) os yw'r fferyllydd GIG, neu dechnegydd fferyllol sydd wedi ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen gan y fferyllydd GIG, sy'n darparu'r gwasanaeth AMR wedi cael cydsyniad i gael gwasanaethau AMR oddi wrth y claf y mae'r fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol yn darparu'r gwasanaethau hynny iddo, sydd, ymhlith materion eraill, yn dangos bod y claf naill ai wedi cydsynio neu nad yw'n cydsynio i wybodaeth benodol, sy'n ymwneud â gwasanaethau AMR a ddarperir i'r claf, gael ei thrin yn y modd a bennir gan Weinidogion Cymru (er enghraifft, diben gwirio ôl-dalu),

(d) o ran y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol—

(i) bod rhaid iddo gynnal cofnod o unrhyw gydsyniad a geir o dan is-baragraff (c)(iii),

(ii) na chaiff ddarparu gwasanaethau Rhan 1 neu Ran 2 i glaf oni bai bod y claf wedi cydsynio i gael y gwasanaethau hynny yn unol ag is-baragraff (c)(iii), a

(iii) na chaiff ond prosesu'r wybodaeth, gan gynnwys data personol y claf, yn y modd y mae'r claf wedi darparu ei gydsyniad ar ei gyfer yn unol ag is-baragraff (c)(iii);

(e) bod rhaid i'r gwasanaethau Rhan 1 sydd i'w darparu gan y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol fel rhan o'r gwasanaeth AMR gynnwys—

(i) darparu gwybodaeth ddigonol i'r claf am y gwasanaeth AMR i alluogi'r claf hwnnw i roi ei gydsyniad ar sail gwybodaeth i gael y gwasanaeth,

(ii) trafodaeth â'r claf am y meddyginiaethau y mae'r claf yn eu cymryd,

(iii) adnabod gan y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol sy'n darparu'r gwasanaeth unrhyw anghysondebau rhwng y meddyginiaethau y mae'r claf yn eu cymryd a'r rheini a ragnodir wrth ei ryddhau, a

(iv) cytundeb, pan fo'n bosibl, rhwng y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol a'r claf ynghylch y camau nesaf, hynny yw—

(aa) os nad oes unrhyw anghysondebau rhwng y meddyginiaethau y mae'r claf yn eu cymryd a'r rheini a ragnodir wrth ei ryddhau, cytuno â'r claf ar amser a lleoliad ar gyfer darparu gwasanaethau Rhan 2 i'r claf,

(bb) os adwaenir unrhyw anghysondebau neu unrhyw broblemau o dan is-baragraff (e)(iii) a dyfarniad clinigol y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol yw bod ymyrraeth gan ymarferydd cyffredinol yn ofynnol, esbonio hynny i'r claf, cwblhau'r ffurflen adborth AMR gymeradwy ac atgyfeirio'r mater at yr ymarferydd cyffredinol y mae'r claf yn glaf cofrestredig gydag ef,

(cc) os adwaenir unrhyw anghysondebau neu unrhyw broblemau o dan is-baragraff (e)(iii) ond dyfarniad clinigol y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol yw nad yw ymyrraeth gan ymarferydd cyffredinol yn ofynnol, cytuno â'r claf ar amser a lleoliad ar gyfer darparu gwasanaethau Rhan 2 i'r claf hwnnw, ac unrhyw gamau adfer sydd i'w cymryd cyn yr ymyrraeth honno;

(f) bod rhaid i'r gwasanaethau Rhan 2 sydd i'w darparu gan y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol fel rhan o'r gwasanaeth AMR gynnwys—

(i) trafodaeth â'r claf am y meddyginiaethau y mae'r claf yn eu cymryd,

(ii) asesiad gan y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol sy'n cyflawni'r gwasanaethau Rhan 2 o'r graddau y mae unrhyw anghysondebau rhwng y meddyginiaethau y mae'r claf

yn eu cymryd a'r rheini a ragnodir wrth ei ryddhau wedi eu datrys,

(iii) os adwaenir unrhyw broblemau o dan is-baragraff (f)(ii) a dyfarniad clinigol y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol yw bod ymyrraeth gan ymarferydd cyffredinol yn ofynnol, esbonio hynny i'r claf, cwblhau'r ffurflen adborth AMR gymeradwy ac atgyfeirio'r mater at yr ymarferydd cyffredinol y mae'r claf yn glaf cofrestredig gydag ef;

(g) bod y fferyllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllol yn sicrhau bod y Cofnod Dewis Fferyllfa yn cael ei ddiweddaru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i bob ymgynghoriad gael ei gynnal gan neu ar ran y fferyllydd GIG fel rhan o'r gwasanaeth AMR a'i fod yn cynnwys y data cymeradwy;

(h) bod y fferyllydd GIG yn darparu gwybodaeth o'r Cofnod Dewis Fferyllfa i'r Bwrdd Iechyd Lleol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru(**1**); ac

(i) bod y fferyllydd GIG yn cadw copi o'r cofnod a grybwyllir yn is-baragraff (g) am o leiaf 2 flynedd, gan ddechrau â'r dyddiad y cwblheir neu y terfynir ymyrraeth y gwasanaeth.

(2) At ddibenion is-baragraffau (1)(e) ac (f), mae darparu'r gwasanaeth AMR i glaf wedi ei gwblhau—

(a) unwaith bod y claf wedi cael y gwasanaethau Rhan 1 ac, os oes angen, y gwasanaethau Rhan 2, neu

(b) os nad yw'r claf, o ganlyniad i weithred neu anweithred y claf, yn cael y gwasanaethau Rhan 2 ar yr adeg y cytunwyd arni ac na all y fferyllydd GIG, ar ôl gwneud ymdrechion rhesymol i wneud hynny, ad-drefnu a darparu'r gwasanaethau Rhan 2 hynny ar achlysur arall, unwaith bod yr ymdrechion rhesymol hynny wedi eu gwneud.

### Y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

**6.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol a bennir ym mharagraff (2), ar gyfer personau o fewn ei ardal a'r tu allan iddi, gyda fferyllwyr GIG sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol—

(a) sy'n dymuno ymrwymo i drefniadau o'r fath ac yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am eu

(**1**) Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd wedi ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 (O.S. Rhif 1451).

bwriad i ddarparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol yn unol â chyfarwyddyd 3(2),

(b) sy'n bodloni'r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3, paragraffau (3) i (7) yn gynhwysol, ac

(c) sy'n cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol yn unol â'r fanyleb berthnasol(**1**).

(2) Rhaid i drefniant i ddarparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol gynnwys darparu gan y fferyllydd GIG—

(a) Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd cofrestredig ddarparu cyngor a chymorth i gleifion cymwys sy'n cwyno am anhwylder cyffredin, a phan fo'n briodol, gyflenwi cyffuriau iddynt ar gyfer trin yr anhwylder cyffredin;

(b) Gwasanaeth Atal Cenhedlu Brys, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd cofrestredig gyflenwi dulliau atal cenhedlu mewn achosion brys neu mewn argyfwng, neu gyflenwi dulliau atal cenhedlu rheolaidd, i glaf o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion(**2**);

(c) Gwasanaeth Brechu rhag y Ffliw Tymhorol, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd cofrestredig roi brechiad rhag y ffliw i glaf o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion, neu brotocol sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddio rhag y coronafeirws a'r ffliw);

(d) Gwasanaeth Cyflenwi Meddyginiaethau Brys, a'i ddiben sylfaenol yw sicrhau, ar gais claf mewn achosion brys, fynediad prydlon i gyffuriau neu gyfarpar—

(i) sydd wedi eu rhagnodi neu ei ragnodi ar ei gyfer yn flaenorol mewn presgripsiwn GIG ond nad oes ganddo bresgripsiwn GIG ar eu cyfer neu ar ei gyfer, a

(ii) pan fo gofynion rheoliad 225(1) o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (gwerthu brys etc. gan Fferyllydd: ar gais y claf) wedi eu bodloni, yn achos meddyginiaethau presgripsiwn yn unig.

---

(**1**) https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/

(**2**) Mae Cyfarwyddydau Grŵp Cleifion yn caniatáu i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau penodedig i grwpiau o gleifion a ddiffiniwyd ymlaen llaw, heb bresgripsiwn.

**Y Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth**

**7.**—(1) Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth, ar gyfer personau o fewn ei ardal a'r tu allan iddi, gyda fferyllwyr GIG sy'n rhagnodwyr annibynnol, neu fferyllwyr GIG sy'n bwriadu cyflogi neu gymryd ymlaen ragnodydd annibynnol i gyflenwi'r gwasanaeth ar eu rhan, sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol ac—

(a) sy'n darparu'r Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol o dan drefniant gyda Bwrdd Iechyd Lleol yn unol â chyfarwyddyd 6,

(b) sy'n dymuno ymrwymo i drefniant i ddarparu'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth ac yn hysbysu'r Bwrdd Iechyd Lleol am eu bwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd 3(2),

(c) sy'n bodloni'r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3, paragraffau (3) i (7) yn gynhwysol, a

(d) sy'n cytuno i ddarparu'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth yn unol â'r fanyleb berthnasol(**1**).

(2) Dibenion sylfaenol y Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth yw—

(a) darparu mynediad i feddyginiaethau presgripsiwn yn unig ar gyfer trin anhwylderau cyffredin y mae angen eu trin â meddyginiaethau presgripsiwn yn unig nad ydynt ar gael o dan y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol;

(b) darparu mynediad i ddulliau atal cenhedlu brys neu reolaidd pan na fo modd diwallu'r anghenion hynny o dan y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol; ac

(c) darparu unrhyw wasanaeth arall y mae'r fferyllydd GIG yn cytuno â'r Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol i'w ddarparu.

**Gwasanaethau ychwanegol**

**8.**—(1) Caiff pob Bwrdd Iechyd Lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol ychwanegol a bennir ym mharagraff (2), i bersonau o fewn ei ardal neu y tu allan iddi, gyda fferyllwyr GIG sydd wedi eu cynnwys yn ei restr fferyllol, neu yn rhestr fferyllol Bwrdd Iechyd Lleol cyfagos—

---

(**1**) https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/

(a) sy’n dymuno ymrwymo i drefniant i ddarparu gwasanaeth ychwanegol a bennir ym mharagraff (2) ac yn hysbysu’r Bwrdd Iechyd Lleol am eu bwriad i wneud hynny yn unol â chyfarwyddyd 3(2),

(b) sy’n bodloni’r amodau a nodir yng nghyfarwyddyd 3, paragraffau (3) i (7) yn gynhwysol, ac

(c) sy’n cytuno, pan fo’n gymwys, i ddarparu’r gwasanaeth ychwanegol hwnnw yn unol â’r fanyleb berthnasol(**1**).

(2) Y gwasanaethau fferyllol ychwanegol a bennir yw—

(a) Gwasanaeth Monitro Gwrthgeulyddion, a’i ddiben sylfaenol yw i’r fferyllydd GIG brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu’r canlyniadau ac addasu dos y gwrthgeulydd (neu argymell addasiad iddo) yn unol â hynny;

(b) Gwasanaeth Cartref Gofal, a’i ddiben sylfaenol yw i’r fferyllydd GIG ddarparu cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal sy’n ymwneud—

(i) ag archebu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr yn y cartref gofal,

(ii) â’r defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau,

(iii) â rhoi cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal,

(iv) â storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a

(v) â chofnodi cyffuriau a chyfarpar a gaiff eu harchebu, eu trin, eu rhoi, eu storio neu eu gwaredu;

(c) Gwasanaeth Rheoli Clefydau Penodol, a’i ddiben sylfaenol yw i’r fferyllydd GIG gynghori ar driniaeth cleifion â chyflyrau penodedig, ei chefnogi a’i monitro, a phan fo’n briodol, atgyfeirio’r claf at broffesiynolyn gofal iechyd arall;

(d) Gwasanaeth Cyflenwi Triniaeth Frys a Phroffylacsis yn ystod Pandemig—

(i) a’i ddiben sylfaenol yw i’r fferyllydd GIG gyflenwi meddyginiaethau i glaf o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion neu brotocol sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru neu gorff GIG yn

(**1**) https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-fferylliaeth/y-gronfa-ddata-fferyllol-i-gymru-gyfan/

unol â rheoliad 247 o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (esemptiad ar gyfer cyflenwi os bydd clefyd pandemig neu os disgwylir clefyd pandemig), a

(ii) os yw fferyllydd GIG yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu drwy gydol y trefniant y mae wedi cytuno arno â'r Bwrdd Iechyd Lleol;

(e) Gwasanaeth Brechu Pandemig Brys—

(i) a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG roi brechiad i glaf o dan Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion neu brotocol sydd wedi ei awdurdodi gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddio rhag y coronafeirws a'r ffliw), a

(ii) os yw fferyllydd GIG yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu drwy gydol y trefniant y mae wedi cytuno arno â'r Bwrdd Iechyd Lleol;

(f) Gwasanaeth Cyflenwi Bwyd heb Glwten, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG gyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion;

(g) Gwasanaeth Danfon i'r Cartref, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG ddanfon i gartrefi cleifion—

(i) cyffuriau, a

(ii) cyfarpar, ac eithrio cyfarpar penodedig o fewn ystyr rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol;

(h) Gwasanaeth Mynediad at Iaith, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG ddarparu, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyngor a chymorth i gleifion mewn iaith a ddeellir ganddynt mewn perthynas—

(i) â chyffuriau y maent yn eu defnyddio,

(ii) â'u hiechyd,

(iii) â materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt, a

(iv) pan fo'n briodol, ag atgyfeirio'r claf at broffesiynolyn gofal iechyd arall;

(i) Gwasanaeth Adolygu Meddyginiaethau, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG—

(i) cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi eu cynnwys yng nghofnod gofal claf y claf, gyda'r amcan o ystyried priodoldeb ac

effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau ar gyfer y claf,

(ii) cynghori a chefnogi claf ynghylch defnyddio ei gyffuriau gan gynnwys annog y claf i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'i ddefnydd o gyffuriau, a

(iii) pan fo'n briodol, atgyfeirio'r claf at broffesiynolyn gofal iechyd arall;

(j) Gwasanaeth Cymorth Asesu a Chydymffurfedd Meddyginiaethau, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG—

(i) asesu gwybodaeth cleifion hyglwyf a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol am gyffuriau, eu cydymffurfedd â hwy a'u defnydd ohonynt, a

(ii) cynnig cyngor, cymorth a chynhorthwy i gleifion hyglwyf a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol(**1**) ynghylch defnyddio cyffuriau gyda golwg ar wella gwybodaeth y claf am y cyffuriau hynny, eu cydymffurfedd â hwy a'u defnydd ohonynt;

(k) Gwasanaeth Cyflenwi Nodwyddau a Chwistrellau, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG—

(i) darparu nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig di-haint i gamddefnyddwyr cyffuriau,

(ii) cael gan gamddefnyddwyr cyffuriau nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig sydd wedi eu defnyddio, a

(iii) cynnig cyngor i gamddefnyddwyr cyffuriau a phan fo'n briodol atgyfeirio'r camddefnyddiwr cyffuriau at broffesiynolyn gofal iechyd arall neu ganolfan arbenigol ar gyfer trin am gyffuriau;

(l) Gwasanaeth Cyffuriau Arbenigol ar Gael ar Alw, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG sicrhau bod gan gleifion neu broffesiynolion gofal iechyd fynediad prydlon i gyffuriau arbenigol;

(m) Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG weinyddu cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau (pa un ai am y cyfan o'r cyfnod y tu allan i oriau ai peidio);

---

(**1**) Fel y'i diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2).

(n) Gwasanaeth Cyfarwyddydau Grwpiau Cleifion, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG gyflenwi neu weinyddu meddyginiaethau presgripsiwn yn unig i gleifion o dan Gyfarwyddydau Grwpiau Cleifion;

(o) Gwasanaeth Cymorth i Ragnodwyr, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG gefnogi proffesiynolion gofal iechyd sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol gynnig cyngor—

(i) ar y defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau,

(ii) ar bolisïau a chanllawiau rhagnodi, a

(iii) ar amlragnodi;

(p) Gwasanaeth Ysgolion, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG ddarparu cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud—

(i) â'r defnydd clinigol a chosteffeithiol o gyffuriau mewn ysgol,

(ii) â gweinyddu a defnyddio cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol mewn ysgol,

(iii) â storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a

(iv) â chofnodi cyffuriau a chyfarpar a gaiff eu harchebu, eu trin, eu rhoi, eu storio neu eu gwaredu;

(q) Gwasanaeth Sgrinio, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG—

(i) adnabod cleifion sydd mewn risg o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodedig,

(ii) cynnig cyngor ynghylch profi am glefyd neu gyflwr penodedig,

(iii) cynnal prawf o'r fath gyda chydsyniad y claf, a

(iv) cynnig cyngor yn dilyn prawf ac atgyfeirio'r claf at broffesiynolyn gofal iechyd arall pan fo'n briodol;

(r) Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG—

(i) cynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i ysmygu, a

(ii) pan fo'n briodol, gyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol;

(s) Gwasanaeth Gweinyddu o dan Oruchwyliaeth, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG oruchwylio gweinyddu meddyginiaethau rhagnodedig yn y fferyllfa;

(t) Gwasanaeth Rhagnodi, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG sy'n rhagnodydd annibynnol, neu sy'n cyflogi neu'n cymryd ymlaen ragnodydd annibynnol, ragnodi meddyginiaethau o dan amgylchiadau a bennir gan y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol;

(u) Gwasanaeth Casglu Meddyginiaethau Gwrthfeirysol, a'i ddiben sylfaenol yw i'r fferyllydd GIG gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (esemptiad ar gyfer cyflenwi os bydd clefyd pandemig neu os disgwylir clefyd pandemig), i gleifion am driniaeth neu broffylacsis; a

(v) Gwasanaeth Lleihau Gwastraff, a'i ddiben sylfaenol yw adnabod meddyginiaethau neu gyfarpar rhagnodedig nad ydynt neu nad yw'n ofynnol gan y claf ar adeg eu cyflenwi neu ei gyflenwi.

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol derfynu trefniant a wneir o dan baragraff (2) os nad yw'r fferyllydd GIG, ym marn y Bwrdd Iechyd Lleol, yn cydymffurfio'n foddhaol, neu os nad yw'n cydymffurfio'n foddhaol mwyach, â'i rwymedigaethau o dan Atodlen 5 i'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau fferyllol.

### Talu am ddarparu gwasanaethau clinigol

**9.** Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud taliadau i fferyllydd GIG sy'n darparu gwasanaethau o dan drefniant a wneir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn yn unol—

(a) â Rhan VID o'r Tariff Cyffuriau, am ddarparu'r gwasanaeth AMR, y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol neu'r Gwasanaeth Rhagnodi Annibynnol Fferylliaeth, a

(b) â Rhan VIE o'r Tariff Cyffuriau, am ddarparu unrhyw wasanaeth arall.

### Amodau talu

**10.**—(1) Nid yw taliad o dan y Cyfarwyddydau hyn ond yn daladwy os yw fferyllydd GIG, mewn cysylltiad â phob person yr hawlir taliad o dan y Cyfarwyddydau hyn ar ei gyfer yn unol â'r trefniadau ar gyfer hawlio taliadau a nodir yn Rhannau VID a VIE o'r Tariff Cyffuriau, wedi cyflenwi i'r Bwrdd Iechyd Lleol drwy Ddewis Fferyllfa, FfHAEG (pan na fo'r modiwl Dewis Fferyllfa perthnasol ar gael), neu fecanwaith arall y cytunir arno rhwng y fferyllydd GIG a'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) enw'r person,

(b) dyddiad geni'r person,

(c) rhif GIG y person, pan fo'n hysbys, a

(d) y dyddiad y darparwyd y gwasanaeth i'r person.

(2) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol ofyn i fferyllydd GIG am unrhyw wybodaeth nad yw gan y Bwrdd Iechyd Lleol ond y mae ei hangen arno, ac sydd naill ai gan y fferyllydd GIG neu y gellid disgwyl yn rhesymol ei bod ganddo, er mwyn i'r Bwrdd Iechyd Lleol ffurfio barn ynghylch a yw'r fferyllydd GIG â hawlogaeth i gael taliad o dan y Cyfarwyddydau hyn.

(3) Caiff y Bwrdd Iechyd Lleol, o dan amgylchiadau priodol, gadw'n ôl unrhyw daliadau sy'n ddyledus o dan y Cyfarwyddydau hyn, neu unrhyw ran ohonynt, os yw fferyllydd GIG yn torri unrhyw un neu ragor o'r amodau hyn.

**Gordaliadau a symiau a gadwyd yn ôl**

**11.**—(1) Os yw Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud taliad i fferyllydd GIG yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn ac—

(a) nad oedd gan y fferyllydd GIG hawlogaeth i gael y taliad cyfan neu ran ohono, pa un ai oherwydd nad oedd yn bodloni'r amodau hawlogaeth ar gyfer y taliad neu oherwydd i'r taliad gael ei gyfrifo'n anghywir (gan gynnwys pan fo taliad ar gyfrif yn goramcangyfrif y swm sydd i ddod yn ddyledus);

(b) bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gadw'n ôl y taliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod sydd ynghlwm wrth y taliad wedi ei dorri, ond na all wneud hynny oherwydd bod yr arian wedi ei dalu eisoes; neu

(c) bod gan y Bwrdd Iechyd Lleol hawlogaeth i gael ad-daliad o'r holl arian a dalwyd neu ran ohono,

mae rheoliad 57 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol yn gymwys a chaiff y Bwrdd Iechyd Lleol adennill yr arian a dalwyd drwy ddidynnu swm cyfatebol o unrhyw daliad sy'n daladwy o dan y Cyfarwyddydau hyn neu unrhyw daliad arall sy'n daladwy i fferyllydd GIG yn unol â'r Tariff Cyffuriau ac yn rhinwedd ei fod yn darparu gwasanaethau GIG, a phan na fo didyniad o'r fath yn gallu cael ei wneud, mae'n amod o'r taliadau a wneir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn bod rhaid i'r fferyllydd GIG dalu i'r Bwrdd Iechyd Lleol y swm cyfatebol hwnnw.

(2) Pan fo hawlogaeth gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff (1) i gadw'n ôl daliad cyfan neu ran ohono oherwydd bod amod talu wedi ei dorri, a bo'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gwneud hynny neu'n adennill yr arian drwy ddidynnu swm cyfatebol o daliad arall

sy'n daladwy o dan y Cyfarwyddydau hyn neu unrhyw daliad arall sy'n daladwy i fferyllydd GIG yn unol â'r Tariff Cyffuriau ac yn rhinwedd ei fod yn darparu gwasanaethau GIG, caiff, pan fo'n gweld ei bod yn addas gwneud hynny, ad-dalu i'r fferyllydd GIG y swm a gadwyd yn ôl neu'r swm a adenillwyd, os yw'r toriad yn cael ei unioni.

### Tandaliadau a thaliadau hwyr

**12.**—(1) Os nad yw swm llawn taliad sy'n daladwy o dan y Cyfarwyddydau hyn wedi cael ei dalu cyn y dyddiad y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, unwaith y mae'n dod yn ddyledus, rhaid iddo gael ei dalu'n brydlon oni bai—

(a) bod hyn yn digwydd â chydsyniad y fferyllydd GIG, neu

(b) bod swm y taliad, neu'r hawlogaeth i gael y taliad, neu unrhyw ran ohono, yn destun anghydfod.

(2) Os nad yw hawlogaeth y fferyllydd GIG i gael y taliad yn destun anghydfod ond bod swm y taliad yn destun anghydfod, yna unwaith y mae'r taliad yn dod yn ddyledus, wrth aros i'r anghydfod gael ei ddatrys, rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol—

(a) talu yn brydlon i'r fferyllydd GIG swm sy'n cynrychioli'r swm y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn derbyn y mae gan y fferyllydd GIG hawlogaeth i'w gael o leiaf, a

(b) wedi hynny, talu unrhyw ddiffyg yn brydlon, unwaith bod yr anghydfod wedi ei ddatrys yn derfynol.

(3) Fodd bynnag, o ran fferyllydd GIG—

(a) os nad yw wedi hawlio taliad y byddai ganddo hawlogaeth i'w gael o dan y Cyfarwyddydau hyn pe bai'n hawlio'r taliad, neu

(b) os yw wedi hawlio taliad y mae ganddo hawlogaeth i'w gael o dan y Cyfarwyddydau hyn ond na all Bwrdd Iechyd Lleol gyfrifo'r taliad tan ar ôl y dyddiad y mae'r taliad i ddod yn ddyledus oherwydd nad oes ganddo'r wybodaeth y mae ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad hwnnw (ar ôl gwneud pob ymdrech resymol i gael yr wybodaeth),

mae'r taliad hwnnw (yn lle hynny) i ddod yn ddyledus ar ddiwrnod gwaith cyntaf y mis ar ôl y mis pan fydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cael yr wybodaeth y mae ei hangen arno er mwyn cyfrifo'r taliad.

### Taliadau ar gyfrif

**13.** Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol a'r fferyllydd GIG yn cytuno (ond caiff y Bwrdd Iechyd Lleol dynnu ei

gytundeb yn ôl pan fo'n rhesymol gwneud hynny ac os yw wedi rhoi rhybudd rhesymol i'r fferyllydd GIG ei fod yn bwriadu gwneud hynny), rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol dalu i fferyllydd GIG ar gyfrif unrhyw swm sydd—

(a) yn swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cyfarwyddydau hyn, neu

(b) yn ganran gytunedig o swm taliad, neu'n amcangyfrif rhesymol o swm taliad, sydd i fod i ddod yn ddyledus o dan y Cyfarwyddydau hyn, ac os yw'r taliad hwnnw yn arwain at ordaliad mewn cysylltiad â'r taliad, mae cyfarwyddyd 11 yn gymwys.

### Gwirio ôl-dalu

**14.** Mae gwirio ôl-dalu(**1**) yn gymwys i ddarparu gwasanaethau o dan drefniadau a wneir yn unol â'r Cyfarwyddydau hyn.

### Datrys anghydfodau

**15.**—(1) Yn achos anghydfod (ac eithrio mewn perthynas â gordaliad, pan fo rheoliad 57(1)(b) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Fferyllol yn gymwys) sy'n codi o ddarparu gwasanaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn, neu mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny, rhaid i'r fferyllydd GIG a'r Bwrdd Iechyd Lleol wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithredu â'i gilydd gyda golwg ar ddatrys yr anghydfod, cyn atgyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i'w ystyried ac i benderfynu arno yn unol â'r weithdrefn datrys anghydfodau (neu, pan fo'n gymwys, cyn cychwyn achos llys) a bennir ym mharagraffau (2) i (15) isod.

(2) Mae'r weithdrefn a bennir yn y paragraffau a ganlyn yn gymwys yn achos unrhyw anghydfod sy'n codi o ddarparu gwasanaethau o dan y Cyfarwyddydau hyn, neu mewn cysylltiad â darparu'r gwasanaethau hynny, a atgyfeirir at Weinidogion Cymru.

(3) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y'i crybwyllir ym mharagraff (2) anfon at Weinidogion Cymru gais ysgrifenedig i ddatrys anghydfod a rhaid iddo gynnwys y canlynol neu rhaid i'r canlynol ddod gydag ef—

(a) enwau a chyfeiriadau'r partïon i'r anghydfod,

(b) copi o unrhyw drefniant a wneir o dan y Cyfarwyddydau hyn, ac

---

(**1**) I gael rhagor o wybodaeth am wirio ôl-dalu, gweler: https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/gwybodaeth-gyffredinol/dilysu-ar-ol-talu/

(c) datganiad byr sy'n disgrifio natur ac amgylchiadau'r anghydfod.

(4) Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno atgyfeirio anghydfod fel y'i crybwyllir ym mharagraff (2) anfon y cais o dan baragraff (3) o fewn cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y digwyddodd y mater a arweiniodd at yr anghydfod neu pan ddylai'n rhesymol fod wedi dod i sylw'r parti sy'n dymuno atgyfeirio'r anghydfod.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar yr anghydfod eu hunain neu, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol, benodi person neu bersonau i'w ystyried a phenderfynu arno.

(6) Cyn dod i benderfyniad ynghylch pwy a ddylai benderfynu ar yr anghydfod, o dan baragraff (5), rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 7 niwrnod gan ddechrau â'r dyddiad yr atgyfeiriwyd mater sy'n destun anghydfod atynt, anfon cais ysgrifenedig at y partïon i gyflwyno yn ysgrifenedig, o fewn cyfnod penodedig, unrhyw sylwadau y gallant fod yn dymuno eu gwneud ynghylch y mater sy'n destun anghydfod.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru roi, gyda'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (6), i'r parti ac eithrio'r un a atgyfeiriodd y mater ar gyfer datrys anghydfod gopi o unrhyw ddogfen yr atgyfeiriwyd y mater ar gyfer datrys anghydfod drwyddi.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru roi copi o unrhyw sylwadau a geir gan barti i'r parti arall a rhaid iddynt ym mhob achos ofyn (yn ysgrifenedig) i barti y rhoddir copi o'r sylwadau iddo gyflwyno o fewn cyfnod penodedig unrhyw arsylwadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu cyflwyno am y sylwadau hynny.

(9) Ar ôl cael unrhyw sylwadau gan y partïon neu, os yw'n gynharach, ar ddiwedd y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath a bennir yn y cais a anfonir o dan baragraff (6) neu (8), rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn penderfynu penodi dyfarnwr i wrando ar yr anghydfod—

(a) rhoi gwybod i'r partïon yn ysgrifenedig am enw'r person neu'r personau y maent wedi ei benodi neu eu penodi, a

(b) trosglwyddo i'r dyfarnwr unrhyw ddogfennau a geir gan y partïon o dan baragraff (3), (6) neu (8).

(10) At ddiben cynorthwyo Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr, yn ôl y digwydd, i ystyried y mater, caiff Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr—

(a) gwahodd cynrychiolwyr o'r partïon i ymddangos ger eu bron neu ger ei fron i gyflwyno sylwadau llafar naill ai gyda'i gilydd neu, gyda chytundeb y partïon, ar wahân, a darparu ymlaen llaw i'r partïon restr o faterion neu gwestiynau y mae Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr yn

dymuno iddynt roi ystyriaeth arbennig iddynt, neu

(b) ymgynghori â phersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr yn ystyried y byddai eu harbenigedd yn cynorthwyo i ystyried y mater.

(11) Pan fo Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr yn ymgynghori â pherson arall o dan baragraff (10)(b), rhaid i Weinidogion Cymru neu'r dyfarnwr hysbysu'r partïon yn unol â hynny yn ysgrifenedig a, phan fo Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr yn ystyried y gallai canlyniad yr ymgynghoriad effeithio'n sylweddol ar fuddiannau unrhyw barti, rhaid iddynt neu rhaid iddo roi i'r partïon unrhyw gyfle y maent yn ystyried ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i gyflwyno arsylwadau ar y canlyniadau hynny.

(12) Wrth ystyried y mater, rhaid i Weinidogion Cymru neu'r dyfarnwr ystyried—

(a) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan baragraff (6), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(b) unrhyw arsylwadau ysgrifenedig a gyflwynir mewn ymateb i gais o dan baragraff (8), ond dim ond os cânt eu cyflwyno o fewn y cyfnod penodedig;

(c) unrhyw sylwadau llafar a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad o dan baragraff (10)(a);

(d) canlyniadau unrhyw ymgynghoriad o dan baragraff (10)(b); ac

(e) unrhyw arsylwadau a gyflwynir yn unol â chyfle a roddir o dan baragraff (11).

(13) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau eraill yn y cyfarwyddyd hwn ac i unrhyw gytundeb gan y partïon, mae gan Weinidogion Cymru neu'r dyfarnwr, yn ôl y digwydd, ddisgresiwn eang i benderfynu ar y weithdrefn ar gyfer datrys yr anghydfod i sicrhau bod penderfyniad cyfiawn, diymdroi, darbodus a therfynol yn cael ei wneud ar yr anghydfod.

(14) Rhaid i benderfyniad Gweinidogion Cymru neu'r dyfarnwr, yn ôl y digwydd, a'r rhesymau drosto, gael eu cofnodi yn ysgrifenedig a rhaid i Weinidogion Cymru neu'r dyfarnwr roi hysbysiad o'r penderfyniad (gan gynnwys y cofnod o'r rhesymau) i'r partïon.

(15) Yn y cyfarwyddyd hwn—

ystyr "cyfnod penodedig" ("*specified period*") yw'r cyfnod hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ei bennu mewn cais, sef nid llai na 2, na dim mwy na 4, wythnos gan ddechrau â'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad y cyfeirir ato, ond caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod rheswm da dros wneud hynny, estyn unrhyw gyfnod o'r fath (hyd yn oed wedi iddo ddod i ben)

a, phan fônt yn gwneud hynny, mae cyfeiriad yn y paragraff hwn at y cyfnod penodedig yn gyfeiriad at y cyfnod fel y'i hestynnir felly;

ystyr "dyfarnwr" ("*adjudicator*") yw'r person neu'r personau a benodir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (5).

**Diwygiadau canlyniadol, dirymiadau ac arbedion**

**16.** Mae'r Atodlen yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol a dirymiadau.

**17.**—(1) Mae trefniant yr ymrwymwyd iddo gan Fwrdd Iechyd Lleol a fferyllydd GIG o dan gyfarwyddyd 4 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005 yn parhau i fod yn gymwys fel pe bai wedi ei wneud o dan gyfarwyddyd 8 o'r Cyfarwyddydau hyn, yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Mae trefniant ar gyfer darparu'r Cynllun Mân Anhwylderau, y Gwasanaeth Cyfarwyddydau Grwpiau Cleifion neu'r Gwasanaeth Cyflenwi Brys, yr ymrwymwyd iddo gan Fwrdd Iechyd Lleol a fferyllydd GIG o dan gyfarwyddyd 4 o Gyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005, yn parhau i fod yn gymwys fel pe bai wedi ei wneud o dan gyfarwyddyd 8 o'r Cyfarwyddydau hyn tan 1 Ebrill 2022 pan fydd unrhyw drefniant o'r fath yn dod i ben.



**Llofnodwyd gan Andrew Evans, Y Prif Swyddog Fferyllol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 4 Mawrth 2022**

# YR ATODLEN

Cyfarwyddyd 16

## Diwygiadau canlyniadol a dirymiadau

1) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) 2005 wedi eu dirymu.

2) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2006(**1**) wedi eu dirymu.

3) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2008(**2**) wedi eu dirymu.

4) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2011(**3**) wedi eu dirymu.

5) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2013(**4**) wedi eu dirymu.

6) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2014(**5**) wedi eu dirymu.

7) Mae Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch ac Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2015(**6**) wedi eu dirymu.

8) Yng Nghyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019(**7**), hepgorer cyfarwyddyd 2.

---

(**1**) 2006 Rhif 88.
(**2**) 2008 Rhif 11.
(**3**) 2011 Rhif 47.
(**4**) 2013 Rhif 7.
(**5**) 2014 Rhif 15.
(**6**) 2015 Rhif 10.
(**7**) 2019 Rhif 40.